**Gweithgor ar yr *Iaith Gymraeg ym maes Datblygu Economaidd a Gweinyddu Llywodraeth Leol***

## Cylch Gorchwyl

## Cefndir

1. Mae gan Lywodraeth Leol ran hyfyw wrth gyflenwi gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn natblygu economaidd ardaloedd ble mae'r Gymraeg yn iaith y mwyafrif ac wrth gryfhau defnydd pob dydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac yn ehangach yn y gymuned.

2. Trafodwyd yn rheolaidd ddyfodol yr iaith yng ngweinyddiaeth Llywodraeth Leol ar ôl uno Awdurdodau yn ystod hynt y Bil Llywodraeth Leol (Cymru). Cyhoeddodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod dadl Cyfnod 4 y Bil gynllun am grŵp gorchwyl a gorffen i adrodd ar arfer gorau ynghylch y materion hyn.

3. Mae Awdurdodau Lleol presennol, ac fe fydd y rhai a ddaw i fodolaeth fel canlyniad i ddiwygio Llywodraeth Leol, yn ddarostyngedig i safonau'r iaith Gymraeg o dan Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a'r rheoliadau cysylltiedig. Yn ogystal, nododd y Papur Gwyn *Grym i Bobl Leol*, os bydd Cynghorau sy'n uno ar wahanol lefelau o ran safonau'r Gymraeg, mae'n rhaid i'r Awdurdod newydd fabwysiadu'r safonau uwch. Fodd bynnag, nid yw hyn yn delio gydag arfer sy'n mynd y tu hwnt i'r safonau cyfreithiol. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Gwynedd wedi dewis mabwysiadu'r Gymraeg fel iaith ei weinyddiaeth mewnol. Fel cyflogwr o bwys yng Ngwynedd, mae'n debygol fod polisi y Cyngor wedi helpu i gynnal yr iaith yn y sir honno.

4. Bu nifer o adroddiadau ar yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd ar hyd y blynyddoedd. Cyhoeddodd grŵp gorchwyl a gorffen i'r Cyngor Partneriaeth y Gymraeg adroddiad ar *Gynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith*[1] ym mis Rhagfyr 2013. Ym mis Chwefror 2014, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen ar y Gymraeg mewn Datblygu Economaidd.[2] I raddau, mae'r adroddiadau hyn wedi canolbwyntio ar rai o swyddogaethau Llywodraeth Leol sy'n cynnal swyddi a thwf mewn ffordd sy'n helpu cynnal cymunedau Cymraeg. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys cynllunio a chaffael, er enghraifft.

5. Yn ogystal â'u statws fel cyflogwyr pwysig a chyrff sy'n gwario'n sylweddol, mae Awdurdodau Lleol hefyd yn dylanwadu ar ddatblygu economaidd lleol drwy swyddogaethau fel tai, addysg, adfywio a gweithgareddau diwylliannol. Mae rhai o'r swyddogaethau hyn yn statudol, tra bod eraill ddim.

---

[1] http://llyw.cymru/topics/welshlanguage/publications/welsh-speaking-communities-report-and-work-plan/?skip=1&lang=cy

[2] http://gov.wales/topics/businessandeconomy/policy/wled/?lang=cy

**Amcanion**

6. Dylai'r Gweithgor ymchwilio i arfer gorau yn y meysydd canlynol:

   i. defnydd yr iaith Gymraeg yng ngweinyddiaeth Llywodraeth Leol;
   ii. rôl Llywodraeth Leol wrth hwyluso datblygu economaidd er cefnogi'r iaith Gymraeg; a
   iii. gwneud argymhellion sy'n berthnasol i'r amcanion hyn yng nghyd-destun diwygio Llywodraeth Leol a'r dyletswyddau a osodir ar Awdurdodau Lleol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

7. Dylai prif ffocws y Gweithgor fod ar ardaloedd gyda chanran uchel o siaradwyr Cymraeg ond dylai ystyried y cyfleuon ym mhob rhan o Gymru.

8. Ystyrir yr argymhellion wrth ddatblygu canllawiau statudol i Bwyllgorau Pontio o dan adran 13(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015.

**Swyddogaethau**

9. Dyma swyddogaethau'r Gweithgor er mwyn iddo gyflawni ei amcanion:

   a) ymgysylltu ag aelodau etholedig a swyddogion Llwodraeth Leol;
   b) ymgysylltu â busnesau, y trydydd sector a rhanddeiliaid eraill;
   c) ymgysylltu â'r Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus;
   d) ymgymryd â dadansoddiad perthnasol o'r dystiolaeth sy'n bodoli, gan gynnwys yr adroddiadau y cyfeirir atynt uchod;
   e) nodi unrhyw ddiffygion sylweddol mewn ymchwil neu ddealltwriaeth;
   f) nodi camau ymarferol y gellid eu cymryd o fewn y fframweithiau deddfwriaethol ac ariannu presennol (ac arfaethedig);
   g) cynnig tystiolaeth ychwanegol i'w ystyried ar gyfer ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith yr Iaith Gymraeg a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft;
   h) cyflwyno adroddiad interim i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus erbyn 15 Mawrth 2016;
   i) cyflwyno adroddiad terfynol i Weinidogion Cymru erbyn 31 Mai 2016.

**Aelodaeth**

10. Disgwylir i sgiliau, arbenigedd ac argaeledd yr aelodau fod yn briodol i gyflawni amcanion y Gweithgor. Bydd uchafswm o saith aelod i'r Gweithgor:

   - cadeirydd;
   - hyd at chwech o aelodau ychwanegol i'w henwebu gan y cadeirydd.

11. Bydd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn cytuno'r enwebiadau a gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch yr aelodaeth.

12. Gall swyddogion is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru sylwedu ar gyfarfodydd. Gellir gwahodd swyddogion eraill Llywodraeth Cymru i fod yn bresennol os yn briodol.

**Ysgrifenyddiaeth**

13. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflenwi cefnogaeth ysgrifenyddol briodol i gynorthwyo’r Gweithgor i gyflawni ei amcanion. Mae hyn yn cynnwys trefnu cyfarfodydd, cyflenwi agendâu, cofnodion a phapurau eraill, rheoli gohebiaeth, crynhoi tystiolaeth a chyflenwi cyngor a chymorth.

**Cyllid**

14. Ni fydd tâl i Aelodau’r Gweithgor ond ad-delir costau teithio a byw rhesymol. Gweithredir yn unol â rheolau teithio a byw Llywodraeth Cymru.